



# Ysgol Talysarn

Talysarn  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL54 6HR

Ffon: 01286 880885

E.Bost - [GlendaEvans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:GlendaEvans@gwynedd.llyw.cymru)

---

Pennaeth/Headteacher: Mrs. Glenda Evans B.A. (Anrhydedd)

---

05.06.2020

Annwyl Rieni,

**"Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi".**

Brynhawn ddydd Mercher, 03/06/2020,, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, fanylion y cam nesaf i ysgolion yng Nghymru, gan roi cyfle i'ch plentyn "Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi". Yn y datganiad hwn, cadarnhaodd y Gweinidog y bwriad i ysgolion gynllunio i ddechrau'r cyfnod nesaf ar 29 Mehefin, gyda thymor yr Haf yn cael ei ymestyn o wythnos, a gorffen ar 27 Gorffennaf. Ar ben hynny, bydd wythnosau olaf tymor yr Haf yn cael eu defnyddio i ofalu bod disgyblion, staff a rhieni yn cael eu paratoi - yn feddyliol, yn emosiynol ac yn ymarferol - am y normal newydd ym mis Medi. Bydd hanner tymor yr Hydref yn cael i ymestyn i bythefnos.

Mae cyswllt i'r datganiad dros y dudalen, ac rydym hefyd wedi atodi crynodeb o'r datganiad ar dudalen dau, fel cymorth.

Ein blaenoriaeth ni yw diogelwch a lles eich plentyn chi, ac rydym yn aros am ganllawiau manwl a fydd yn gymorth i ni gynllunio a pharatoi ar gyfer y cam nesaf hwn. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd y canllawiau pellach hyn yn cael eu cyhoeddi wythnos nesaf, a fydd yn cynnwys gwybodaeth ar reoli cyfleusterau a threfniadau ymarferol, gan gynnwys adeiladau, adnoddau, glanhau a chlodiant. Er hynny, rydym eisoes wedi dechrau cynllunio ac ystyried, gan roi blaenoriaeth i lesiant dysgwyr, staff a theuluoedd a chefnogi ysgolion i gynllunio dull dychwelyd yn raddol sy'n briodol i'w cymuned.

Yn naturiol, bydd gennych lawer o gwestiynau ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, y consortiwm rhanbarthol a llywodraethwyr fel y gallwn roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i allu paratoi am y cam nesaf hwn. Er mwyn cadw mewn cysylltiad â chi yn gyson, rydym yn bwriadu rhannu holiadur\* i chi gael lleisio eich barn, a fydd yn ein helpu ni i gynllunio maes o law (\* efallai y daw'r holiadur hwn gan yr awdurdod lleol hefyd). Bydd yr wythnosau nesaf hyn yn rhai prysur iawn wrth i ni geisio cwblhau ein hasesiadau risg, a pharatoi safle'r ysgol. Ond, cofiwch mai ein blaenoriaeth ni yw rhoi gwybodaeth i chi a'ch plant.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto, cyn gynted ag y cawn mwy o fanylion. Yn y cyfamser, mae Ysgol Talysarn yn dal ar agor i ddisgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol.

Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar yr adeg anodd hwn.

## **Crynodeb o gyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 03/06/20, a chyswllt ato.**

### **Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi".**

<https://llyw.cymru/dod-ir-ysgol-dal-ati-i-ddysgu-paratoi-ar-gyfer-yr-haf-mis-medi>

#### **Beth**

- Bydd bob ysgol yn dechrau'r cam nesaf ar 29 Mehefin, gyda'r tymor yn cael ei ymestyn am wythnos hyd at 27 Gorffennaf.
- Bydd hanner tymor yr Hydref yn cael ei ymestyn i bythefnos.
- Bydd darparwyr gofal plant hefyd yn cynyddu nifer y plant sy'n bresennol o 9 Mehefin.

#### **Sut**

- Ym mhob ysgol, bydd dull o weithredu fesul cam yn cael ei roi ar waith.
- Bydd y blynyddoedd ysgol yn cael eu rhannu yn grwpiau ac yn dechrau yn ôl ac yn cael gwersi ac egwylliau fesul grŵp.
- Mae disgwyl y bydd hyn yn golygu, yn fras, y bydd traean o ddisgyblion yn bresennol ar unrhyw un amser, ond efallai y bydd ysgolion angen amser i gyrraedd y lefel weithredu hon.
- Bydd y dosbarthiadau'n llawer llai, gan ddarparu amser penodol gydag athrawon a chyd-ddisgyblion.
- Bydd yr amser hwn yn cynnwys profiad dosbarth ar-lein a phersonol, gan baratoi plant a staff ar gyfer profiad tebyg ym mis Medi.

#### **Pam**

- Rydym yn creu'r cyfle i blant Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf cyn dechrau mis Medi.
- Ers y penderfyniad i gau ysgolion ar gyfer darpariaeth statudol, mae ein dealltwriaeth o'r feirwsa'i effeithiau hirdymor wedi parhau i ddatblygu.
- Gwyddom y bydd rhaid i ni fyw â hyn am beth amser.
- Gwyddom mai dyma fydd yr her fwyaf i ni hyd y gellir rhagweld.
- Gwyddom y bydd profiad yn y dosbarth yn wahanol am amser hir eto.

#### **Beth nesaf**

- Wythnos nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi gofal plant, ysgolion, yn ogystal â sefydliadau addysg bellach ac uwch.
- Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar reoli eu cyfleusterau a threfniadau cynllunio, gan gynnwys adeiladau, adnoddau, glanhau a chludiant.